BRITISH COUNCIL

# Blwyddyn y Gwningen

## Adnoddau i helpu eich ysgol i ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd

Pecyn Addysg - Ysgolion Cynradd

www.britishcouncil.org/school-resources

@Schools_British



# Cyflwyniad

**Yn ôl y Calendr Lloerol Tsieineaidd, mae Blwyddyn y Gwningen yn dechrau ar 22ain o Ionawr, 2023. Pecyn addysg i ysgolion cynradd yw hwn. Mae'n cynnwys gwybodaeth a gweithgareddau i helpu athrawon a disgyblion ddysgu mwy am yr ŵyl wanwyn bwysig yma a darganfod mwy am iaith a diwylliant Tsieina.**

Gall eich disgyblion ddarllen stori draddodiadol o Tsieina sy'n esbonio pam, os edrychan nhw'n ofalus, y gallant weld siâp cwningen ar wyneb y lleuad, dysgu geiriau rhifo a geirfa anifeiliaid anwes, rhoi cynnig ar galigraffeg a bod yn greadigol wrth ddarlunio cwningod gyda brwshys ac inciau. Yn ogystal, bydd cyfle iddynt ddysgu rhai diarhebion am gwningod a dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd drwy baratoi byns blasus siâp cwningen yn llawn cwstard.

## Gŵyl y Gwanwyn Chūn Jié（春节）

Mae dathliadau Gŵyl y Gwanwyn yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn loerol ac yn para hyd y 15fed diwrnod. Yn niwylliant Tsieina, dyma ŵyl bwysicaf y flwyddyn. Yn ystod yr ŵyl mae teuluoedd yn dod at ei gilydd ac mae pobl yn anrhydeddu eu cyndeidiau. Hefyd, mae perfformiadau cyhoeddus o ddawns y llew yn cael eu cynnal. Yn ystod y ddawns mae pobl yn rhoi arian mewn amlenni coch a'u gosod yng ngheg y llew – am lwc dda. Yn draddodiadol mae neiniau a theidiau / mamau a thadau cu yn rhoi arian mewn amlenni coch yn anrheg i'w hwyrion a'u hwyresau. Yr enw ar yr arfer yma yw ya suì qián. Erbyn heddiw rydych lawn mor debygol o weld cymeriadau cartŵn ar yr amleni ag yr ydych o weld symbolau traddodiadol.





# Cynnwys

UCL Institute of Education


**Stori Draddodiadol o Tsieina a gweithgareddau**
– Cwningen y Lleuad
tud 4

**Gwers Iaith Tsieinëeg**
tud 7

**Gweithgaredd Celf** – tynnu lluniau cwningod gan ddefnyddio brwshys ac inc
tud 8

**Darllen llythyron gan blant o Tsieina yn sôn am eu hanifeiliaid anwes**
tud 13

**Coginio**
– Sut i wneud byns siâp cwningen
tud 16



**Cysyniad a gwaith datblygu gan y British Council.**

Ysgrifennwyd gan James Trapp, Prif Ymgynghorydd Sefydliad Confucius i Ysgolion yn Sefydliad Addysg Prifysgol Llundain ( UCL IOE) ac Alison Willmott, Ymgynghorydd Addysg.

# Stori draddodiadol o Tsieina
# Sut y gwnaeth cwningen gyrraedd y lleuad?

## Yn y Gorllewin, rydyn ni'n sôn am Hen Ddyn y Lleuad, ond yn Tsieina (a gwledydd eraill yn y Dwyrain Pell) maen nhw'n sôn am Gwningen y Lleuad. Y tro nesa y bydd lleuad lawn yn glir yn awyr y nos, edrychwch yn ofalus i weld os gallwch ei gweld!

**Mae dwy stori draddodiadol am sut y gwnaeth cwningen gyrraedd y Lleuad. Adroddwch y ddwy wrth eich disgyblion – i weld pa un maen nhw'n ei hoffi orau.**

Mae'r stori gyntaf yn dechrau gyda **saethwr bwa saeth** enwog o'r enw Hou Yi. Roedd e'n byw amser maith, maith yn ôl – yn oes mythau a chwedlau. Bryd hynny roedd y Ddaear yn lle ofnadwy i fyw achos yn hytrach nag un Haul mawr yn rhoi'r union faint o olau a gwres yr oedd ei angen, roedd yna ddeg haul gwahanol yn codi un ar ôl y llall. Ac wrth iddyn nhw groesi'r awyr yn eu tro, roedden nhw'n gwneud i'r llynnoedd a'r afonydd sychu a dinistrio'r holl gnydau yr oedd pobl y Ddaear yn eu tyfu.

Gofynnodd Yr Ymerawdwr Mawr Yao i'r heliwr Hou Yi ei helpu i newid y sefyllfa ofnadwy yma. Yn gyntaf, ceisiodd Hou Yi godi ofn ar yr heuliau a'u gorfodi i **ildio** drwy bwyntio ei fwa a saeth atyn nhw. Roedd e'n gobeithio y byddai hyn yn ddigon achos roedd pob un, gan gynnwys yr heuliau oedd yn bell i fyny yn y Nefoedd, yn gwybod nad oedd e byth yn methu gyda'i fwa a saeth. Ond roedd yr heuliau'n credu eu bod nhw'n rhy fawr ac yn rhy gryf ac yn rhy bell i ffwrdd i orfod poeni am saethau Hou Yi. Ond, roedden nhw'n anghywir!



**Amcanion dysgu:** Sbarduno diddordeb y disgyblion mewn stori draddodiadol o Tsieina a chyflwyno gweithgareddau i ddyfnhau eu dealltwriaeth o'r testun a'u diddordeb ynddo.

**Cysylltiadau Cwricwlwm:** Cymraeg.

**Sgiliau craidd a throsglwyddadwy:** Cyfathrebu a chydweithio, creadigrwydd a dychymyg.

**Paratoi ac adnoddau:** Bydd angen copïau o'r stori arnoch, digon o le, darn mawr o bapur a phennau sgwennu.

Delwedd o'r Byd: Cwningen y Lleuad yn sefyll wrth bot coginio – Cwningen y Lleuad – Wikipedia (Parth Cyhoeddus)

Pan welodd Hou Yi nad oedd ei fygythiadau'n gweithio, fe daniodd gawod o saethau - un ar ôl y llall – at yr heuliau, gan wneud iddyn nhw ddisgyn yn bendramwnwgl o'r awyr! Roedd ar fin saethu'r degfed haul o'r awyr pan sylweddolodd yr Ymerawdwr Yao eu bod ar fin gwneud camgymeriad mawr. Cipiodd y saeth olaf o fwa Hou Yi gan ddweud: "Byddai'n ofnadwy pe na bai unrhyw haul o gwbl yn yr awyr – byddai dim dydd a nos, dim ond tywyllwch drwy'r amser!". Ac felly ni wnaeth Hou Yi saethu'r saeth olaf honno. Cafodd yr un haul oedd ar ôl barhau i groesi'r awyr ar ei ben ei hun gan roi'r union faint o olau a gwres i'r Ddaear ag yr oedd ei angen i gadw digon o ddŵr yn y llynnoedd a'r afonydd a chadw'r cnydau i dyfu i fwydo'r bobl.

Rhoddodd yr Ymerawdwr Mawr Yao wobr arbennig i Hou Yi am ei **weithred arwrol** o saethu'r naw haul o'r awyr sef, Pilsen **Anfarwoldeb.** Os byddai Hou Yi yn llyncu'r bilsen, byddai'n gallu hedfan i fyny i'r Nefoedd a byw yno am byth. Ni wnaeth Hou Yi lyncu'r bilsen ar unwaith. Yn hytrach fe wnaeth ei chadw dan glo mewn lle diogel yn ei gartref. Ymhen ychydig amser, fe briododd wraig ddeallus a hardd o'r enw Chang E, ac fe fuon nhw'n byw gyda'i gilydd yn hapus am lawer o flynyddoedd.

Un diwrnod, dyma fachgen ifanc o'r enw Peng Meng (a oedd yn un o fyfyrwyr Hou Yi) yn cripio i mewn i dŷ Hou Yi. Roedd e wedi clywed am y Bilsen Anfarwoldeb ac roedd eisiau ei dwyn. Ond wrth iddo agor y bocs lle'r oedd y bilsen yn cael ei chadw, daeth Chang E i'r ystafell a'i ddal. Roedd hi'n gwybod nad oedd hi'n ddigon cryf i rwystro Peng Meng rhag dwyn y bilsen, ac felly er mwyn ei stopio, fe lyncodd hi'r bilsen yn y fan a'r lle. Roedd y bilsen mor bwerus cafodd Chang E ei sgubo'n syth i fyny tua'r Nefoedd.

Wrth iddi hedfan i fyny, fe waeddodd yn uchel gan **ymbil** ar yr Ymerawdwr Jâd yn y Nefoedd i adael iddi gael o leiaf aros yn agos i'r Ddaear - yn agos at ei gŵr annwyl, Hou Yi. Gwrandawodd yr Ymerawdwr Jâd ar ei hymbiliau, a dim ond mor bell â'r Lleuad y bu'n rhaid iddi hedfan.

Roedd yr Ymerawdwr Jâd yn teimlo piti dros Chang E, a cheisiodd wneud ei bywyd ar y Lleuad mor gysurus â phosib. Adeiladodd balas iddi fyw ynddo, a danfonodd gwningen i gadw cwmni iddi. Ond roedd e hefyd yn gwybod bod yn rhaid cosbi Chang E am lyncu'r Bilsen Anfarwoldeb. Ac felly rhoddodd dasg iddi – sef gwneud rhagor o Bils Anfarwoldeb - gyda help y gwningen. A dyna pam, os edrychwch chi'n ofalus iawn ar y Lleuad, y gallwch weld cwningen yn sefyll wrth ymyl jar. Mae'r gwningen yn cymysgu cynhwysion arbennig yn y jar - fel y gall Chang E greu'r Pils Anfarwoldeb.

Mae'r ail stori yn adrodd hanes tri o'r anfarwolion. Fe benderfynon nhw ddod ar drip o'r Nefoedd i'r Ddaear i weld sut yr oedd yr anifeiliaid yn ymddwyn. Fe wnaethon nhw wisgo **cuddwisg** er mwyn edrych fel cardotwyr, a mynd o anifail i anifail i ofyn am fwyd. Yn gyntaf, gofynnon nhw i'r llwynog. Aeth ef allan i hela, a daeth â chig yn ôl iddyn nhw ei fwyta. Yna gofynnon nhw i'r mwnci. Fe wnaeth e ddringo'r coed, a daeth â ffrwythau ac aeron yn ôl iddyn nhw. Yn olaf, gofynnon nhw i'r gwningen. Roedd y gwningen yn drist achos roedd hi'n gwybod nad oedd pobl yn gallu bwyta gwair a gwellt – a dyna i gyd y gallai hi ei gynnig iddynt. Roedd hi mor drist, achos yr unig ateb oedd ganddi oedd taflu ei hun ar y tân fel y gallai gael ei choginio; ac yna byddai'r cardotwyr yn gallu bwyta cig cwningen wedi rhostio. Ond gan mai anfarwolion oedd y cardotwyr mewn gwirionedd, fe welon nhw beth yr oedd y gwningen yn bwriadu ei wneud, ac fe wnaethon nhw ei stopio cyn iddi gyflawni ei chynllun. Yn hytrach, i wobrwyo **rhinwedd anhunanol** y gwningen, fe wnaethon nhw ei throi yn Gwningen Jâd anfarwol a'i danfon i fyny i'r Lleuad i fyw gyda Chang E.



Llun: Cwningen wen yn creu trwyth anfarwoldeb – Cwningen y Lleuad – Wikepedia (Parth Cyhoeddus)

# Gweithgareddau

## Cwestiynau i'w Trafod

**Gofynnwch i'ch disgyblion weithio gyda phartner i drafod y cwestiynau canlynol:**

- Pa un o'r ddwy stori oeddech chi'n ei hoffi orau? Ydych chi'n gallu esbonio pam?
- Oedd yna unrhyw beth nad oeddech chi'n ei hoffi yn y straeon?
- Oedd unrhyw beth a wnaeth beri penbleth i chi yn y straeon?

**Geirfa**

Mae tipyn o eiriau heriol yn nhestun stori Cwningen y Lleuad. Rydym wedi nodi rhai ohonynt mewn du trwm.

### Dyma'r geiriau: Saethwr bwa saeth; ildio; gweithred arwrol; anfarwoldeb; ymbil; cuddwisg; rhinwedd anhunanol

Gofynnwch i'r disgyblion weithio gyda'i gilydd i greu rhestr eirfa ar gyfer disgyblion eraill - i esbonio'r geiriau hyn. Hefyd, gallant ychwanegu unrhyw eiriau anghyfarwydd eraill i'r rhestr. Dylai eu rhestr geirfa gynnwys diffiniad, cyfystyr, a brawddeg yn cynnwys y gair newydd. Arddangoswch y rhestr eirfa ar wal weithio, ac anogwch eich disgyblion i ddefnyddio eu geiriau a'u hymadroddion newydd bob dydd yn ystod yr wythnos er mwyn dod i arfer â nhw.

## Drama ac Adrodd Stori

Mewn man lle mae digon o le, casglwch y disgyblion ynghyd a darllenwch y stori gyntaf eto. Y tro hwn, stopiwch ar bwyntiau dramatig yn y stori ee: pan mae'r Ymerawdwr yn stopio Hou Yi rhag saethu'r haul olaf; pan mae Chang E yn gweld y llanc ifanc a dorrodd i mewn i'r tŷ; neu pan mae hi'n cwrdd â'r gwningen am y tro cyntaf.

Gofynnwch i'r disgyblion greu lluniau wedi'u rhewi neu 'luniau llonydd' o'r hyn sy'n digwydd ar y pwynt hwnnw yn y stori. Yna, ar arwydd gennych, gofynnwch i'r disgyblion ddod â'r cymeriadau yn y llun yn fyw fel y gallant ddweud beth maen nhw ei feddwl ar y foment ddramatig honno.

Yn ôl yn yr ystafell ddosbarth, gofynnwch i'ch disgyblion greu map stori i ddangos y digwyddiadau allweddol a nodi geiriau'r cymeriadau ar ddarn mawr o bapur. Gall drama a lluniau helpu plant i gofio naratif a geirfa'r stori a bod yn fwy hyderus wrth ei hailadrodd.

Rhowch her i'r disgyblion. Gofynnwch iddynt ysgrifennu fersiwn newydd o stori Cwningen y Lleuad, ond y tro hwn – adrodd y stori drwy lygaid naill ai Hou Yi neu Chang E. Anogwch nhw i ystyried elfennau naratif person cyntaf a nodi sut y mae eu cymeriadau'n teimlo wrth i'r stori ddatblygu. Gyda phlant iau neu rai ag anghenion ychwanegol, gallwch gynnal y gweithgarwch yma fel gweithgarwch lle mae pawb yn rhannu'r ysgrifennu, gan nodi syniadau'r plant neu osod rhai brawddegau allweddol yn eu trefn.

**Gweithgareddau Ysgol Bartner**

Os ydych yn gweithio gydag ysgol bartner, efallai y gallech rannu eich mapiau stori a'ch fersiynau newydd o'r stori gyda'ch gilydd.

# Gwers Iaith Tsieinëeg

**Amcanion Dysgu:** Dysgu geirfa Tsieinëeg sy'n ymwneud â chyfri ac anifeiliaid anwes.

**Cysylltiadau Cwricwlwm:** Ieithoedd Rhyngwladol.

**Sgiliau Craidd:** Cyfathrebu a chydweithio.

**Paratoi ac adnoddau:** Bydd angen cyswllt â'r we arnoch.

**Geirfa ar gyfer cyfri a sôn am anifeiliaid anwes**

| | |
|---|---|
| 一 *yī* | un |
| 二 *èr* | dau |
| 三 *sān* | tri |
| 四 *sì* | pedwar |
| 五 *wǔ* | pump |
| 六 *liù* | six |
| 七 *qī* | chwech |
| 八 *bā* | saith |
| 九 *jiǔ* | naw |
| 十 *shí* | deg |

Adolygwch y rhifau o 1 i 10 y gwnaethom ddysgu gyntaf ym mhecyn addysg Blwyddyn y Ceffyl.

Yna, helpwch eich disgyblion i ymarfer yr eirfa ar gyfer sôn am anifeiliaid anwes. Gofynnwch iddynt ofyn ac ateb y cwestiwn: 'Oes anifeiliaid anwes gyda chi?

只 *zhī*
gair mesur ar gyfer anifeiliaid yn gyffredinol

条 *tiáo*
gair mesur ar gyfer pethau sy'n gwingo neu ymdroelli, fel pysgod, nadroedd, ffyrdd a lonydd

家 *jiā*
teulu, cartref

有 *yǒu*
cael - gyda (fi)

没有 *méi yǒu*
dim XXXX gyda (fi)

宠物 *chǒng wù*
anifail anwes

兔子 tù zi
cwningen

兔宝宝 tù baǒbao
bwni

白色兔子 baísè tùzi
cwningen wen

狗 *gǒu*
ci

猫 *māo*
cath

金鱼 *jīn yú*
pysgodyn aur

仓鼠 *cāng shǔ*
bochdew/hamster

吗 *ma*
geiryn gofynnol

和 *hé*
a / ac

你家有宠物吗?*nǐ jiā yǒu chǒngwù ma?*
Oes anifeiliaid anwes gyda chi?

(yn llythrenol, Oes gan eich teulu anifeiliaid anwes?)

没有 *měi yǒu*
Na! (yn llythrennol, dim cael)

有；我有一只狗，三只猫 和八条金鱼
*yǒu ;wǒ yǒu yīzhī gǒu, sānzhī māo, hé bātiáo jīnyú*
Oes, mae ci, tair cath ac wyth pysgodyn aur gyda fi

# Dull paentio traddodiadol Tsieineaidd gyda brwsh ac inc

**Amcanion Dysgu:** Dysgu am dechnegau traddodiadol Tsieineaidd o ddefnyddio brwsh ac inc, ac arbrofi gyda'r dulliau hynny.

**Cysylltiadau Cwricwlwm:** Celf a Dylunio.

**Sgiliau Craidd a throsglwyddadwy:** Cyfathrebu a chydweithio, creadigrwydd a dychymyg.

**Paratoi ac adnoddau:** Bydd angen copïau o'r paentiadau o gwningod arnoch yn ogystal â phapur, pensiliau, papur cetris, brwshys pigfain ac inciau.

## Gwybodaeth i'w rannu gyda'ch disgyblion

Mae Golchiad Inc yn ddull o baentio traddodiadol yn Tsieina. Dechreuwyd defnyddio'r dull yma gannoedd o flynyddoedd yn ôl yn ystod teyrnasiad Tang. Mae dal yn boblogaidd heddiw gydag artistiaid cyfoes sy'n defnyddio brwshys ac inc du i gyfleu "ysbryd" testun yn hytrach na chopi union. Roedd y dull yma o beintio yn un o'r 'bedair celfyddyd' yr oedd disgwyl i bob 'gŵr bonheddig o ysgolhaig' yn Tsieina eu dysgu yn yr oes a fu. Y tair celfyddyd arall oedd: gallu chwarae offeryn llinynnol o'r enw guqin; gallu chwarae'r gêm strategol Go; a chaligraffeg Tsieineaidd.

Un o nodweddion arbennig paentio inc Tsieineaidd yw'r defnydd o linellau. Mae trwch trawiadau'r brwsh yn creu ymdeimlad o symud a symudiad – mae hyn yn dibynnu ar y math o frwsh a ddefnyddir. Yn draddodiadol, gwnaed y brwshys o gyfuniad o fambŵ gyda blew gafr, ceffyl, cwningen, carw, baedd a blaidd.



# Gweithgaredd

## Dangoswch y peintiadau inc o'r cwningod gan artist o Tsieina i'ch disgyblion. Tynnwch sylw at wahanol siâp ac ystum y gwahanol gwningod

I annog eich disgyblion i edrych yn ofalus iawn ac ymarfer llunio a chyfeirio llinellau di-dor, defnyddiwch y gweithgareddau darlunio canlynol i gynhesi.

1. Gofynnwch i'r disgyblion ddewis un o'r cwningod, ac yna rhowch 30 eiliad iddyn nhw dynnu ei lun. Rhan anodd y dasg yw bod yn rhaid iddynt gadw eu pensiliau i symud heb stopio, a pheidio edrych ar y llun y maent yn ei dynnu, dim ond ar baentiad yr artist o'r gwningen


2. Yr ail her. Ailadrodd y gweithgaredd, ond y tro yma gofynnwch i'ch disgyblion ddefnyddio'r llaw nad ydynt yn ffafrio. Felly rhaid i ddisgyblion sy'n ffafrio eu llaw dde ddefnyddio eu llaw chwith, a'r rhai sy'n ffafrio'r chwith ddefnyddio'r dde. Gallant ddewis yr un paentiad o gwningen, neu ddewis un gwahanol. Eto, rhowch 30 eiliad iddynt gwblhau'r dasg.

3. Rhowch bapur, brwshys ac inciau i'r disgyblion ac anogwch nhw i arbrofi gyda thrawiadau brwsh di-dor gan ddefnyddio brwsh pigfain ac inc ar bapur cetris. Gofynnwch iddynt geisio defnyddio gwahanol raddau o wasgedd a chyflymder wrth greu eu llinellau.

4. Pan maen nhw'n teimlo'n barod, gofynnwch iddynt greu eu paentiadau inc eu hunain o gwningen neu gwningod mewn gwahanol ystumiau – fel y rhai ym mhaentiadau'r artist o Tsieina.

5. Atgoffwch nhw i gadw i edrych yn ofalus ar y gwningen yn y peintiad a chadw eu brwshys i lifo.

6. Wedyn, gall y disgyblion enwi eu cwningen a chreu stori amdani, ac ymarfer ysgrifennu'r symbol Tsieinëeg tù- (cwningen-) mewn gwahanol feintiau a lliwiau gan ddefnyddio'r animeiddiad canlynol.




Paentiad Ink – Blwyddyn Tsieineaidd y Gwningen (2011)

# Animeiddio symbol Tsieineaidd tù - Cwningen




**Cliciwch ar y symbol i chwarae**



**Gweithgareddau Ysgol Bartner**

Os ydych yn cydweithio gydag ysgol bartner gallech greu oriel ar-lein o ffotograffau o'ch paentiadau a'ch caligraffeg. Anogwch eich disgyblion i roi teitl i'w paentiad a chreu cerdyn gwybodaeth i esbonio sut y gwnaethon nhw greu'r llun.

# Diarhebion am gwningod

**Mae anifeiliaid yn rhan annatod o lawer o ddiarhebion traddodiadol Tsieineaidd. Esboniwch mai brawddeg fer yw dihareb, a bod pobl yn aml yn eu defnyddio i rannu cyngor neu ddweud rhywbeth am fywyd. Er enghraifft, dihareb gyffredin yn Gymraeg yw: "Gwell aderyn mewn llaw na dau mewn llwyn". Beth yw ystyr y ddihareb hon?**

Rhannwch y diarhebion Tsieineaidd canlynol am gwningod gyda'r disgyblion. Mewn parau, gofynnwch iddynt drafod beth maen nhw'n meddwl yw ystyr y diarhebion hyn.

Gofynnwch iddynt ddewis un o'r diarhebion Tsieineaidd hyn am gwningod. Rhowch her iddynt ddweud y ddihareb yn uchel – yn Gymraeg ac yn Tsieinëeg. Yna gofynnwch iddynt ymarfer llunio'r symbolau Tsieinëeg, cyn creu dau lun gwahanol – y naill i ddangos ystyr llythrennol y ddihareb, a'r llall i ddangos yr ystyr sydd ymhlyg yn y ddihareb. Ydyn nhw'n gallu meddwl am unrhyw ddihareb Gymraeg sy'n cynnwys anifail?

Os oes ysgol bartner gyda chi, efallai y gallech rannu eich lluniau a'ch diarhebion gyda nhw.

**兔子不吃窝边草 tùzi bù chī wō biān cǎo**
Nid yw cwningod yn bwyta'r gwair o gwmpas eu tyllau

**兔子急了也咬人tùzi jí le yě yǎo rén**
Gall hyd yn oed cwningen eich cnoi os ydy hi mewn cornel gyfyng

**守株待兔 Shǒu zhū dài tù**
Arhoswch wrth foncyff coeden i ddal cwningen

**兔子不吃窝边草 tùzi bù chī wō biān cǎo**
Nid yw cwningod yn bwyta'r gwair o gwmpas eu tyllau. Ystyr mwy cyffredinol y ddihareb hon yw: 'Mae'n syniad da i beidio â thynnu sylw atoch eich hun'. Ond gan amlaf caiff ei defnyddio i olygu: 'Os ydych yn mynd i wneud drygioni, peidiwch â gwneud hynny'n agos i'ch cartref lle mae pobl yn eich adnabod ac yn gwybod lle'r ydych yn byw!'

**兔子急了也咬人tùzi jí le yě yǎo rén**
Gall hyd yn oed cwningen eich cnoi os ydy hi mewn cornel gyfyng. Mae hyn yn golygu y gall hyd yn oed y person mwyaf addfwyn droi'n gas a throi arnoch os ydych yn ei wthio'n rhy bell.

**守株待兔 Shǒu zhū dài tù**
Arhoswch wrth foncyff coeden i ddal cwningen. Defnyddir y ddihareb hon i ddisgrifio rhywun sy'n dwp ac yn ddiog. Yn ôl y stori…Un tro roedd ffermwr yn gweithio yn ei gaeau pan welodd gwningen yn ceisio dianc oddi wrth lwynog. Doedd y gwningen ddim yn edrych i ble'r oedd yn mynd, ac fe redodd yn erbyn boncyff coeden, taro'i hun yn anymwybodol, a chafodd ei dal gan y llwynog. Meddyliodd y ffermwyr y byddai hyn yn ffordd llawer yn haws o ennill arian na llafurio yn ei gaeau. Felly, bob dydd o hynny ymlaen byddai'n eistedd wrth foncyff y goeden gan aros i ragor o gwningod redeg yn erbyn y boncyff a tharo'u hunain yn anymwybodol. Wrth gwrs, ni ddigwyddodd hynny fyth eto. Cafodd holl gnydau'r ffermwr eu bwyta gan yr adar a chafodd ei gaeau eu tagu gan chwyn. Cafodd y ffermwr ei adael heb arian na dim i'w fwyta.

# Llythyron oddi wrth blant yn Tsieina yn sôn am eu hanifeiliaid anwes

## Gwybodaeth i'w rannu gyda disgyblion

Yn Tsieina, yn hanesyddol, yr unig anifeiliaid anwes yr oedd pobl yn eu cadw oedd adar, criciaid, pysgod aur a chrwbanod môr a therapiniaid. Erbyn heddiw, wrth i Tsieina ddatblygu'n economi gyfoethog a modern mae mwy a mwy o bobl yn cadw anifeiliaid anwes o bob math. Ysgrifennwyd y llythyron canlynol gan blant yn Tsieina. Ynddynt maen nhw'n sôn am eu hoff anifeiliaid anwes. Rhannwch gopïau o'r llythyron gyda'ch disgyblion.



# Llythyron oddi wrth blant yn Tsieina

**Llythyron oddi wrth blant sy'n byw yn Tsieina**



Annwyl ffrind,

Llynedd fe wnes i brynu Cwningen Corrach Iseldiraidd o'r farchnad anifeiliaid anwes. Mae hi mor giwt! Mae ganddi un llygad du ac un llygad glas. Mae ei ffwr yn wyn fel eira. Ar y ffordd adre o'r farchnad, ces i gwpanaid o de llaeth, ac fe geisiodd hi ei yfed. Doeddwn i ddim yn gallu ei stopio ac felly rhoddais i lymaid bach iddi. A nawr, ei henw hi yw "Te Llaeth"!

Mae hi'n hoffi bwyta snaciau, ond dydy hi ddim yn hoffi bwyta gwair. Pan roeddwn i'n rhoi gwair iddi, roedd hi'n esgus ei hoffi a'i gnoi – iym, iym! Ond os oeddwn i'n ei gadael ar ei phen ei hun roedd hi'n stopio bwyta'r gwair. Mae hi ond eisiau mwy o gariad gen i. Mae hi mor glyfar! Ond dydy bod yn rhy glyfar ddim yn beth da bob tro.

Un diwrnod, fe agorodd hi ddrws ei chaets a dianc – heb i fi sylweddoli. Buodd hi ar goll am dri diwrnod! Roeddwn i'n ei methu'n fawr iawn yn ystod y dyddiau hynny. Fe wnes i chwilio amdani ym mhob man, ond heb lwc. Roeddwn i'n drist iawn. O'r diwedd fe lwyddodd i ffeindio ei ffordd adref i'r 18fed llawr. Pan ddaeth hi'n ôl roedd hi wedi blino'n lân ac yn llwgu.

Druan â'r gwningen fach! Roedd hi'n lwcus iawn i oroesi.

Fel y gwelwch, mae "Te Llaeth" yn glyfar iawn ac yn giwt. Dw i'n ei hoffi hi'n fawr iawn. Hi yw fy ffrind gorau nawr.

Yn gywir,
Keyi
Dosbarth Fan 2, Gradd 4



Fy nghi bach, 'Teigr'

Mae Teigr yn gi bach brown ac mae e'n un flwydd oed. Fe oedd anifail anwes fy mreuddwydion.

Dim ond am rai misoedd y gwnes i ofalu am Teigr, achos roedd yn rhaid i fy modryb fynd i weithio mewn dinas arall. Prynodd Mam a fi genel newydd, powlen ddŵr, llawer o fwyd ci a snaciau a llawer o degannau i Teigr. Pan aethon ni i gartref fy modryb i godi Teigr roedd e ychydig bach yn nerfus. Ac roeddwn i'n nerfus hefyd – fel petai pili-pala yn fy mola. Roeddwn i'n ei garu o'r eiliad gyntaf y gwelais i ef, achos roedd e mor hyfryd. Roedd Teigr fel petai'n gwybod ei fod yn gadael fy modryb – roedd e'n udo a doedd e ddim eisiau gadael. Fe wnes i ei anwesi a rhoi mwythau iddo ar hyd ei gefn, a'i gysuro. Wedyn dywedais i wrtho "Mae popeth yn iawn, fyddi di ddim yn unig. Fe wna i ofalu'n dda amdanat ti."

O'r diwedd, roedd ci gyda fi am y tro cyntaf!

Bob dydd roeddwn i'n mynd ag ef i bob man gyda fi. Yn y bore, ar ôl codi byddem ni'n cael brecwast gyda'n gilydd ac yna byddwn i'n mynd ag ef allan i'r iard i redeg yn hapus. Weithiau byddai'n fy hebrwng i'r ysgol gyda fy nhad. Roedd Teigr mor giwt a chyfeillgar ac roedd fy ffrindiau ysgol i gyd yn dwlu arno. Pan fyddwn i'n mynd adre byddai Teigr bob tro'n hapus iawn. Byddai'n ysgwyd ei gynffon a neidio o fy nghwmpas i, ac roedd e'n edrych ymlaen at gael coflaid gen i.

Pan aeth Teigr yn ôl at fy modryb, roeddwn i'n drist iawn i'w weld yn mynd. Teigr fydd fy hoff anifail anwes am byth.

Yilian Lin
Dosbarth 1 Gradd 3
Campws y Gogledd yn Ysgol Ganol Daxing
sy'n rhan o Brifysgol Capital Normal, Beijing

# Llythyron oddi wrth blant yn Tsieina

**Llythyron oddi wrth blant sy'n byw yn Tsieina**



Annwyl ffrindiau o Gymru,

Fel rydyn ni i gyd yn gwybod, mae anifeiliaid yn ffrindiau i bobl. Dw i'n caru pob math o anifeiliaid, ond fy hoff anifeiliaid yw pysgod aur, ac mae pum pysgodyn aur yn fy nheulu i.

Dw i'n hoffi pysgod aur achos maen nhw'n edrych yn brydferth iawn. Mae ganddyn nhw wahanol liwiau, fel oren, coch, aur, coch a gwyn, coch a du.

Dw i'n hoffi pysgod aur achos maen nhw'n giwt iawn a diddorol. Weithiau maen nhw'n chwythu swigod yn y fowlen; weithiau maen nhw'n nofio ar hyd y gwaelod; weithiau maen nhw'n neidio allan o'r dŵr yn sydyn pan rydw i'n rhoi bwyd iddyn nhw. Rydyn ni wedi bod yn ffrindiau da ers llawer o amser. Bob tro y bydda i'n agos at y fowlen, maen nhw'n dod allan yn syth. Mae fel petai eu bod nhw'n dweud: "Beth am inni chwarae gyda'n gilydd, fy ffrind annwyl."

Ydych chi'n hoffi fy mhysgod aur bach?

Cofion gorau

Sandy Zhige Wu
Dosbarth 4 Gradd 3
Campws y Gogledd yn Ysgol Ganol Daxing
sy'n rhan o Brifysgol Capital Normal, Beijing

Annwyl Ffrindiau,

Yn Tsieina, mae llawer o bobl yn dewis ci fel anifail anwes. Mae pobl yn Tsieina yn credu fod y ci yn anifail gonest a thriw iawn ac y bydd yn amddiffyn cartref ei berchennog. Mae ci gyda fi hefyd. Ei henw yw "Arian". Mae ei ffwr yn felyn ac yn feddal. Mae hi'n fflwffi iawn. Mae hi'n dyner iawn, ac yn chwim a sionc. Mae hi'n hoffi rhedeg ar ôl cathod, ond dydw i ddim fel arfer yn gadael iddi wneud hynny. Achos dw i'n hoffi'r cathod hynny gymaint hefyd. Ydych chi'n cytuno? Maen nhw fel "peli fflwffi gwib".

Bob bore dw i'n codi'n gynnar iawn a mynd am dro gyda "Arian". Wedyn, dw i'n cael fy mrecwast a mynd i'r ysgol. Pan dw i'n cyrraedd adref yn y prynhawn, mae hi bob tro'n hapus iawn i fy ngweld. Dw i'n gwneud fy ngwaith cartref yn gyflym fel bod digon o amser gyda fi i'w hyfforddi hi. Pan dw i'n ei hyfforddi hi mae hi bob tro'n eiddgar a brwdfrydig. Weithiau dw i'n chwarae pêl-droed gyda hi. I ddechrau, does dim diddordeb gyda hi mewn pêl-droed. Ond mae popeth yn newid ar ôl i fi dynnu llun wyneb cath ar y bêl. Mae hi'n hoffi cicio a bwrw'r bêl. Dw i'n gwybod pam. Mae'n union fel rhedeg ar ôl cath. Yn aml, ar ôl cael bwyd dw i'n rhoi esgyrn yn ei phowlen – mae hi'n hoffi eu bwyta. Ar ôl hynny, dw i'n mynd â hi am dro eto am hanner awr. Mae hi bob tro'n cyffroi wrth wneud hyn.

Yn aml, ar y penwythnos, bydda i'n mynd â hi i'r parc lleol. Rydyn ni'n mynd yno i redeg, chwarae pêl-droed a chael picnic. Dw i'n credu bod hynny'n helpu i ddatblygu gwell perthynas rhwng Arian a fi. Dw i'n siwr y byddwch chi'n ei hoffi hi hefyd. Mae Arian yn fwy nag anifail anwes, mae hi'n ffrind da i fi. Oes gyda chi ffrind fel hyn? Rhowch wybod i fi cyn gynted â phosibl, alla' i ddim aros!



Eich ffrind,
Kenneth Cheng
Dosbarth 3, Gradd 5
Zimo,
Ysgol Gynradd Arbrofol
Cheng Minhang,
Shanghai, Tsieina

# Gweithgareddau

## Cwestiynau i'w trafod gyda phartner

- Pam y gwnaeth Fan roi'r enw 'Te Llaeth' i'w chwningen?
- Ydych chi'n gallu ffeindio un frawddeg o bob llythyr sy'n dangos sut y mae'r plant yn teimlo am eu hanifeiliaid anwes?
- Os byddech chi'n gallu, pa un o'r pedwar anifail anwes fyddech chi'n hoffi ei gael? Ydych chi'n gallu esbonio pam?
- Pa gwestiynau eraill hoffech chi eu gofyn i'r plant am eu hanifeiliaid anwes?
- Gofynnwch i'ch disgyblion ysgrifennu ateb i un o'r llythyron gan ddisgrifio eu hanifeiliaid anwes eu hunain a sut maen nhw'n gofalu amdanynt. Os nad oes anifail anwes gyda nhw, gallant ddisgrifio'r anifail anwes delfrydol yr hoffent ei gael.

## Beth am Gynnal Digwyddiad i Ddathlu Blwyddyn y Gwningen?

I ddathlu dechrau Blwyddyn y Gwningen, beth am wahodd ffrindiau a theulu i'r ysgol i rannu'r gwaith yr ydych wedi ei wneud? Gallai eich disgyblion ddangos eu sgiliau iaith Tsieinëeg, rhannu eu gwaith celf a'u straeon a rhyfeddu eich ymwelwyr drwy wneud y byns siâp cwningen yn llawn cwstard sy'n boblogaidd iawn – gweler isod.

**Gweithgareddau gydag Ysgol Bartner**

Os ydych yn gweithio gydag ysgol bartner, gallech rannu ffotograffau o ddathliadau Blwyddyn y Gwningen eich ysgol.

# Rysáit ar gyfer byns siâp cwningen yn llawn cwstard



## Ar gyfer y cwstard bydd angen:

- 6 melynwy mawr
- 120g o siwgr castr
- 50g o flawd corn
- 260g o laeth cyflawn
- 80g o fenyn heb ei halltu
- 40g o bowdr llaeth

## Dull

- Rhowch y 6 melynwy mewn powlen fawr.
- Mewn powlen arall, cymysgwch y siwgr a'r blawd corn gyda'i gilydd.
- Rhowch y llaeth, menyn a'r powdr llaeth mewn sosban. Cymysgwch nhw, a gadewch i'r gymysgedd ddod i ferw.
- Chwisgiwch gymysgedd y siwgr a'r blawd corn i mewn i'r melynwy. Yna arllwyswch y llaeth poeth i mewn i'r gymysgedd wyau. Daliwch i chwisgio wrth arllwys - i stopio'r wyau rhag sgramblo.
- Llenwch badell neu sosban yn rhannol â dŵr. Rhowch y fowlen gyda chymysgedd y cwstard ar ben y badell/sosban. Cynheswch y dŵr nes ei fod yn ffrwtian yn dawel, ac yna coginiwch y cwstard yn ei wres gan droi'r cwstard drwy'r amser nes ei fod yn tewychu. Dylai hynny gymryd tua 5 munud. Daliwch i goginio am 1-2 funud arall.
- Arllwyswch y cwstard i mewn i bowlen sy'n dal gwres. Gorchuddiwch y fowlen gyda darn o orchudd plastig, a gadewch i'r cyfan stemio am 30 munud.
- Tynnwch y fowlen o'r sosban stemio, ac arllwyswch y cwstard i gynhwysydd â chaead cyn ei roi yn yr oergell. Gadewch i'r cwstard oeri'n llwyr cyn ei ddefnyddio.

# Rysáit ar gyfer byns siâp cwningen yn llawn cwstard



## Ar gyfer toes y byns wedi stemio bydd angen:

- 525g o flawd plaen, ac ychydig mwy ar gyfer dwstio
- 1½ llwy fwrdd o siwgr castr; a phinsiad o halen
- 1 llwy de o furum sych sy'n gweithio'n gyflym
- 50ml o laeth
- 1 llwy fwrdd o olew blodau haul, ac ychydig dros ben ar gyfer brwsio (ac ar gyfer y fowlen)
- 1 llwy fwrdd o finegr reis
- 1 llwy de o bowdr pobi

## Dull

- Cymysgwch y blawd, siwgr castr a'r hanner llwy de o halen mewn powlen fawr. Toddwch y burum a'r pinsiad o siwgr mewn 1 llwy fwrdd o ddŵr cynnes, cyn ei ychwanegu i'r blawd gyda'r llaeth, olew blodau haul, finegr reis a 200ml o ddŵr. Cymysgwch y cyfan nes ei fod yn troi'n does. Gallwch ychwanegu ychydig mwy o ddŵr os bydd angen.
- Gwasgarwch ychydig o flawd ar arwyneb gweithio, cyn troi'r toes allan. Tylinwch y toes am 10-15 munud, neu nes ei fod yn llyfn. Taenwch haenen ysgafn o olew o gylch tu mewn powlen ac yna rhowch y toes ynddo. Gorchuddiwch â lliain gwlyb a gadewch iddo godi am 2 awr, neu nes ei fod wedi dyblu ei faint.
- Trowch y toes allan ar arwyneb gweithio glân. Dyrnwch y toes i lawr. Defnyddiwch eich dwylo i wasgu'r toes yn fflat. Taenwch y powdr pobi drosto, ac yna tylinwch y toes am 5 munud.

## I wneud y byns siâp cwningen:

- Defnyddiwch y llenwad cwstard i wneud 16 o beli. Defnyddiwch y toes i wneud 18 o beli (un yn fwy nag sydd angen). Gwasgwch yr 16 o beli toes yn fflat a'u siapio'n gylchoedd. Gwnewch yn siŵr fod ymyl allanol y cylchoedd yn fwy tenau na'r canol.
- Rhowch belen o gwstard yng nghanol bob un o'r cylchoedd toes, ac yna lapiwch y toes o gwmpas y cwstard. Gwasgwch a seliwch y toes yn dda. Yna, tynnwch y fynsen yn ofalus nes ei bod yn hirgrwn. Gosodwch y fynsen gyda'r sêm yn wynebu tuag i lawr ar ddarn o bapur pobi.
- Cymerwch un o'r peleni o does sydd ar ôl a'i rhannu'n ddau ddarn (1/3 a 2/3).
- Lliwiwch y belen maint 2/3 gyda dropyn bach iawn o liw bwyd coch neu binc. Lliwiwch y belen maint 1/3 gyda hanner llwy de o bowdr coco. Tylinwch y lliw i mewn i'r toes yn dda.
- Yna, gwnewch 48 o beli pink maint pysen, a 32 o beli coco maint gronyn o reis. Lluniwch y peli pink i siâp clustiau a chynffon ar gyfer pob bynsen. Defnyddiwch y gronynau coco i lunio'r llygaid. Defnyddiwch ychydig bach o ddŵr i'w glynnu wrth y toes.
- Gorchuddiwch y byns a gadewch iddynt godi am tua 15 munud.
- Stemiwch y byns mewn stemiwr bambŵ am 10 munud. Gweinwch y byns yn syth.

Mwynhewch – gallwch rewi'r rhai nad ydych yn eu bwyta!

# Rhagor o wybodaeth

## Rydyn ni'n gobeithio fod eich disgyblion wedi mwynhau gweithgareddau'r pecyn yma. Os ydych chi eisiau gweithio'n rhyngwladol gyda Tsieina a/neu wledydd eraill, mae llawer o ffyrdd ar gael:

### Ffeindio ysgol bartner

Gall partneriaethau rhyngwladol rhwng ysgolion ysbrydoli disgyblion drwy ddod â'r byd i'r ystafell ddosbarth a sbarduno gweithgareddau dysgu ar y cyd sy'n dod â dysgu ieithoedd yn fyw. Maent hefyd yn gyfle i athrawon rannu profiadau a dysgu am ymarfer newydd gan gydweithwyr mewn gwledydd eraill. Mae popeth sydd ei angen arnoch i ffeindio a gweithio gydag ysgolion o'r un anian â chi ym mhob rhan o'r byd ar gael ar ein gwefan, 'Ffeindio Ysgol Bartner'. https://school-partner-finder.britishcouncil.org/ https://www.britishcouncil.org/school-resources/partner

### Cael gafael ar adnoddau

Cymerwch gip ar ein hadnoddau dysgu byd-eang sy'n cynnwys gweithgareddau dosbarth a chynlluniau gwaith: https://www.britishcouncil.org/school-resources/find/classroom

### Dysgu Tsieinëeg

Beth am wahodd Cynorthwyydd Dosbarth Tsieineaidd i'ch dosbarth? Mae trefnu hyn yn hawdd a gallwch rannu'r cynorthwyydd gydag ysgolion lleol eraill. Mae gwybodaeth am Raglen Astudio Cynradd Sefydliad Confucius ar gael yma: http://bit.ly/2cVRnkl

Am ragor o wybodaeth am ffyrdd o gyflwyno Tsieinëeg yn eich ysgol, cysylltwch â Sefydliad Confucius i Ysgolion yn Sefydliad Addysg Coleg Prifysgol Llundain (UCL IOE): chinesenetworks@ucl.ac.uk

### Ennill cydnabyddiaeth

Ymunwch â chynllun clodfawr Gwobr Ysgolion Rhyngwladol y British Council i ennill achrediad am eich gwaith rhyngwladol: https://bit.ly/383onFp

### Lluniau / Paentiadau Tsieineaidd

Paentiadau llinell o gwningod: https://www.dreamstime.com/royalty-free-stock-photos-chinese-s-rabbit-year-ink-painting-image17617048 (dreamstime.com)

Llun o gwningen ar grochenwaith o gyfnod Ymerodraeth Tang (8fed – 9fed Ganrif): https://collections.artsmia.org/art/90695/figure-of-a-rabbit-china

Mae rhagor o wybodaeth am fwy o weithiau celf/lluniau a gweithgareddau darlunio ar gael drwy'r Oriel Genedlaethol yma: https://www.nationalgallery.org.uk/learning/take-one-picture

A pheidiwch ag anghofio, blwyddyn nesaf yw

# Blwyddyn y______?